# Local Wildlife Sites
## in South East Wales

# Safleoedd Natur Lleol
## yn Ne Ddwyrain Cymru

YMDDIRIEDOLAETHAU natur CYMRU
THE WILDLIFE TRUSTS WALES

The Wildlife Trusts are working to locate these special areas and work with their owners to safeguard them for the future.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wrthi'n lleoli'r ardaloedd arbennig hyn ac yn cydweithio â'u perchnogion er mwyn eu diogelu ar gyfer y dyfodol.



### Benefits of owning a Local Wildlife Site:

- Information about your site including details of its main wildlife features.
- Advice about accessing small grant schemes to help with capital works projects that support the restoration and enhancement of Local Wildlife Sites.
- Advice about how to manage your Local Wildlife Site with wildlife in mind, including management toolkits.
- Invitations to Local Wildlife Site Landowner Days where Wildlife Trust staff and guest experts will be available to answer questions, give talks/walks, and run workshops on habitat management.
- Advice about contractors to help carry out essential works on your site.

### Y manteision o fod yn berchennog Safle Natur Lleol:

- Gwybodaeth am eich safle, gan gynnwys manylion am ei brif nodweddion bywyd gwyllt.
- Cyngor ynglŷn â chynlluniau grantiau bychain i helpu gyda phrosiectau gwaith cyfalaf sydd yn cyfrannu at adfer a gwella Safleoedd Natur Lleol.
- Cyngor ar sut i reoli eich Safle Natur Lleol mewn perthynas â bywyd gwyllt, gan gynnwys pecynnau cymorth rheoli.
- Gwahoddiadau i Ddiwrnodau Tirfeddiannwr Safleoedd Natur Lleol lle bydd staff Ymddiriedolaethau Natur ac arbenigwyr eraill ar gael i ateb cwestiynau, annerch, arwain teithiau cerdded a chynnal gweithdai ar reoli cynefinoedd.
- Cyngor ynglŷn â chontractwyr i wneud gwaith hanfodol ar eich safle.

## Contact Us • Cysylltu â ni

**If you have land of value to wildlife and would like to potentially be part of the Local Wildlife Site network and particularly if you are looking for habitat management assistance and advice please contact us:**

**Os oes gennych dir sydd o werth i fywyd gwyllt ac os hoffech fod yn rhan o'r rhwydwaith Safleoedd Natur Lleol - yn enwedig os ydych chi'n chwilio am gymorth a chyngor ar sut i reoli cynefin - byddwch cystal â chysylltu â ni:**


Conservation Team, Gwent Wildlife Trust, Seddon House, Dingestow, Monmouth NP25 4DY
Y Tîm Cadwraeth, Ymddiriedolaeth Natur Gwent, Ty Seddon, Llanddingad, Sir Fynwy NP25 4DY

ff • t: 01600 740600 e: info@gwentwildlife.org
g • w: **www.gwentwildlife.org**

Conservation Team, Wildlife Trust of South & West Wales, Parc Slip, Fountain Road, Tondu CF32 0EH
Y Tîm Cadwraeth, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Parc Slip, Fountain Road, Ton-du CF32 0EH

ff • t: 01656 724100 e: info@welshwildlife.org
g • w: **www.welshwildlife.org**



This leaflet has been produced as part of the Local Wildlife Sites in South East Wales Project (2014).
Cynhyrchwyd y daflen hon fel rhan o Brosiect Safleoedd Natur Lleol yn Ne Ddwyrain Cymru (2014).

Photographs: Bluebell Woods - Rob Parry, Devil's Bit Scabious - Vaughn Matthews, Stonechat, Lapwing, Common Knapweed, Heathland - Andy Karran, Wildflower Meadow - Rebecca Price

Ffotograffau: Coedwig Clychau'r Gog - Rob Parry, Tamaid y Cythraul - Vaughn Matthews, Clochdar y Cerrig, Cornchwiglen, Y Bengaled, Rhostir - Andy Karran, dôl Blodau Gwyllt - Rebecca Price

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru / Wales Biodiversity Partnership
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Ymddiriedolaeth natur Wildlife Trust South and West Wales / De a Gorllewin Cymru
The Wildlife Trusts / Ymddiriedolaethau natur Gwent

# Become part of the Local Wildlife Site network

# Dewch i fod yn rhan o'r rwydwaith Safle Bywyd Gwyllt Lleol



## What are Local Wildlife Sites?

Local Wildlife Sites are a way of recognising some of the best places for wildlife locally. They are areas considered to be of particular conservation value because of the habitats or species they support.

Local Wildlife Sites play a crucial role by providing wildlife refuges, protecting threatened species and habitats, and acting as links and corridors between other valuable sites.



## Beth yw Safleoedd Natur Lleol?

Mae Safleoedd Natur Lleol yn ffordd o adnabod rhai o'r lleoedd gorau ar gyfer bywyd gwyllt yn lleol. Maent yn ardaloedd sy'n cael eu hystyried o fod o werth cadwraethol penodol ar sail y cynefinoedd neu rywogaethau a gynhelir ganddynt.

Mae Safleoedd Natur Lleol yn chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu llochesau i fywyd gwyllt, gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd sydd dan fygythiad, a darparu cysylltiadau a choridorau rhwng safleoedd gwerthfawr eraill.

## What does it mean to be a Local Wildlife Site?

Local Wildlife Sites are voluntary and aim to encourage and support landowners to learn about the special wildlife found on their land and how to care for it. While we can give you advice and support, you make the final decision on how you manage your land.

**Importantly, being a Local Wildlife Site:**

- Places no legal restrictions on your agricultural operations or land management decisions.
- Does not create new rights of way on your land.
- May help protect the site from adverse development but does not commit owners to anything. When determining any planning application, wildlife is always considered whether it is a Local Wildlife Site or not. If the wildlife value of the land is already known this makes the planning process quicker and easier.
- Is intended as recognition that a site is one of the best places for wildlife in the county and a cause to be proud.
- Does not mean we freely access your land – we will always gain your agreement prior to any visit.

## Beth mae bod yn Safle Natur Lleol yn ei olygu?

Mae Safleoedd Natur Lleol yn wirfoddol. Y nod yw cymell a chynorthwyo tirfeddianwyr i ddysgu am y bywyd gwyllt arbennig ar eu tir, a sut i ofalu amdano. Er y gallwn ni gynnig cyngor a chymorth, chi sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar sut i reoli'ch tir.

**Mae'n bwysig nodi'r canlynol ynglŷn â bod yn Safle Natur Lleol:**

- Nid oes unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar eich gweithrediadau amaethyddol nac ar sut y byddwch yn rheoli'r tir.
- Nid yw'n creu hawliau tramwy newydd ar eich tir.
- Gall y bydd yn gymorth i atal datblygu andwyol ar y safle, ond nid yw'n ymrwymo perchnogion i unrhyw beth. Pan fo cais cynllunio yn cael ei ystyried, bydd bywyd gwyllt yn cael ei ystyried bob tro ni waeth ai yw'r lleoliad yn Safle Natur Lleol ai peidio. Os yw gwerth y tir o ran bywyd gwyllt yn hysbys yn barod, bydd hyn yn cyflymu a hwyluso'r broses gynllunio.
- Y bwriad yw cydnabod y safle yn un o'r mannau gorau yn y sir am fywyd gwyllt, ac yn rhywbeth y gellir ymfalchïo ynddo.
- Nid yw'n golygu y gallwn fynd ar eich tir fel y mynnwn - byddwn yn gofyn am eich caniatâd bob tro.

